Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

cymwysterau.cymru

qualifications.wales

Annwyl Gydweithiwr,

**Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Cymru Wrth-hiliol**

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am gynnal yr ymchwiliad pwysig hwn. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl ehangach hon i weithredu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ("Cynllun").

Fel y mae'r Cynllun yn ei nodi'n gwbl gywir, '*Mae hiliaeth yn realiti o hyd i lawer o'n dysgwyr a'n haddysgwyr*'[1]. Fel rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn radd yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac i ddatblygu Cymru wrth-hiliol. Rydym yn deall bod hyn yn golygu mynd ati i ganfod a dileu'r systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n cynhyrchu deilliannau gwahaniaethol iawn mewn bywyd i ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol.

Rydym yn nodi yn ein hymateb isod y gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud, yn ogystal â gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio i gefnogi dull gweithredu gwrth-hiliol y Llywodraeth. Rydym hefyd yn darparu rhywfaint o fanylion ynghylch pa ymyriadau ychwanegol y credwn sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun, gan gynnwys sut y gallai Llywodraeth Cymru annog dull gweithredu traws-sector mwy cyson.

## Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymwysterau Cymru 2022-24

Rydym yn deall bod ein diwylliant yn effeithio ar sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cyhoeddus ac yn cydnabod pwysigrwydd y camau rydym yn eu cymryd, a'r negeseuon rydym yn eu hanfon, at bartneriaid, rhanddeiliaid a'n staff. Dyna pam y gwnaethom y penderfyniad i ddatblygu a chyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth[2] dwy flynedd ein hunain ym mis Tachwedd 2022.

Ers lansio'r cynllun hwn, rydym wedi:

[1] Adran 3 – Addysg a'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (t.40)
[2] https://cymwysteraucymru.org/media/b2zneuq4/cynllun-gweithredu-gwrth-hiliaeth-cymwysterau-cymru-2022-24.pdf

- Cwblhau Adolygiad Cynhwysiant ar draws y sefydliad ac wedi gweithredu ar ei ganfyddiadau, gan gynnwys rhoi hyfforddiant i'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd, a sefydlu Grŵp Hyrwyddwyr Cydraddoldeb traws-sefydliadol.
- Cymryd rhan yn y rhaglen 'Llwybr i'r Bwrdd'[3], gyda thri aelod o'n Bwrdd yn gweithredu fel mentoriaid.
- Parhau i adolygu a mireinio ein prosesau recriwtio i nodi a chymhwyso arfer gorau. Rydym am ymgysylltu â'n hardal leol – un o'r ardaloedd mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru – ac yn ddiweddar cynhaliwyd cyfres o nosweithiau agored ar gyfer recriwtio i'r perwyl hwnnw.
- Dechrau adolygiad o'n proses ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad, '*Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?*'[4].

Byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu yn ein cynllun ac yn dysgu o'r gwaith a wnawn yn y cyfnod hwn. Bydd fersiwn pellach o'r cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y cyfnod dilynol.

## Datblygu Cymwysterau

Un o amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw:

> *Sicrhau bod cyfraniadau a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu haddysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru ar ei ffurf ddiwygiedig.*

Mae sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hymgorffori'n effeithiol ac yn ystyrlon wrth lunio'r ystod newydd o gymwysterau wedi bod yn ystyriaeth allweddol yn ein gwaith, a bydd yn parhau i fod felly.

Er nad oes gennym unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau na recriwtio gweithlu addysg - dau o'r prif feysydd a amlygwyd yng Nghynllun y Llywodraeth - rydym wedi ymrwymo o fewn ein cynllun gweithredu ein hunain i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddylanwadu ar gynnwys cymwysterau ac adnoddau cyrff dyfarnu.

Mae hyn yn cynnwys helpu i ymgorffori adolygiad yr Athro Charlotte Williams OBE i gynghori ar a gwella addysgu themâu a phrofiadau sy'n gysylltiedig â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws y cwricwlwm drwy ddiwygio cymwysterau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed.

Gwnaeth yr adroddiad terfynol[5], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, ddau argymhelliad ar gyfer Cymwysterau Cymru:

> ***Argymhelliad 47:*** *Dylai Cymwysterau Cymru ystyried ffyrdd priodol o gefnogi amrywiaeth wrth gynllunio cymwysterau, wrth iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys pwnc a pharamedrau cynllunio cymwysterau TGAU yn benodol i Gymru.*

---

[3] Llwybr i'r Bwrdd - Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (ccha.org.uk)
[4] https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf
[5] gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf (llyw.cymru)

***Argymhelliad 48:*** *Dylai Cymwysterau Cymru weithio'n agos gyda chyrff dyfarnu er mwyn sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y manylebau ar gyfer cymwysterau sy'n benodol i Gymru yn adlewyrchu addysg ar gyfer amrywiaeth.*

Rydym wedi datblygu'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd drwy broses a elwir yn 'ddatblygu ar y cyd' – mae hyn wedi golygu cydweithio'n agos ag athrawon, dysgwyr, cynghorwyr arbenigol, ac eraill sy'n dibynnu ar ddeilliannau cymwysterau gan gynnwys cyflogwyr, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion i ddatblygu cynigion ar gyfer cymwysterau mewn pynciau unigol.

Fel rhan o'r broses honno, gwnaethom sicrhau cynrychiolaeth gan Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar ein Grŵp Cynghori Academaidd. Fe wnaethom hefyd sefydlu grŵp ffocws i gynnal adolygiad beirniadol o safbwynt amrywiaeth o'r cynigion cynnwys ar gyfer pynciau o fewn tri Maes Dysgu a Phrofiad – y Dyniaethau, y Celfyddydau Mynegiannol ac Ieithoedd, a Llythrennedd a Chyfathrebu. Fe wnaethom ystyried yr adborth gan y grŵp ffocws ar gyfer pob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

Ym mis Ebrill 2022, gofynnwyd i'r Athro Williams, aelod o'n Grŵp Cynghori Academaidd, ddarparu cymorth a chyngor pellach ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys sut y gellid addysgu ac asesu amrywiaeth ar draws gwahanol bynciau yn y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a'r camau y dylem eu cymryd i sicrhau bod y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a'r cymwysterau eraill a ddatblygir gan gyrff dyfarnu yn adlewyrchu addysg ar gyfer amrywiaeth.

Rydym am gynyddu i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed ymwneud â themâu trawsbynciol y cwricwlwm a'u hystyried[6], gan gynnwys amrywiaeth, hawliau dynol a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dyma pam rydym wedi mynnu bod pob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru[7] yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ymwneud â'r themâu hynny ac yn darparu cynnwys ac asesiadau perthnasol a diddorol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad polisi[8] yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod pob cymhwyster Gwneud-i-Gymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yn adlewyrchu ystod amrywiol o safbwyntiau, cyfraniadau a phrofiadau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymunedau sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd ledled Cymru.

Felly, bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu sy'n datblygu unrhyw gymhwyster Gwneud-i-Gymru newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed esbonio:

---

[6] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/
[7] https://cymwysteraucymru.org/media/fiafsugr/meini-prawf-cymeradwyo-cymwysterau-tgau-gwneud-i-gymru.pdf
[8] https://cymwysteraucymru.org/media/c34jklnn/themau-trawsgwricwlaidd-cig-i-gymwysterau-14-16-gwneud-i-gymru.pdf

- sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys rhai cymunedau ac unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- sut mae wedi ystyried y defnydd o iaith a/neu derminoleg, y dewis o adnoddau, ac wedi ceisio barn grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys yr amrywiaeth o safbwyntiau a chyfraniadau a wneir gan gymunedau (ac unigolion) ethnig leiafrifol, drwy ei drafodaethau â rhanddeiliaid, a sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried.

Yn fwy diweddar, a chyn i CBAC ddechrau ar y gwaith o ddatblygu cymwysterau i fodloni gofynion ein Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig, fe wnaethom hwyluso gweithdy ar y cyd rhwng ein staff, cydweithwyr CBAC a'r tîm Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL). Roedd y sesiwn hon yn hynod addysgiadol ac yn gyfle i fyfyrio ar ein gwahanol waith wrth ddatblygu'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ac yn gyfle i drafod y gwaith hwnnw.

Mewn ymateb i gyngor yr Athro Williams, rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil i ddulliau cynhwysol o ymdrin â chymwysterau ac asesiadau, gan ganolbwyntio'n glir ar nodi arfer da yn rhyngwladol. Mae'r ymchwil hon wedi archwilio amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- sut i sicrhau bod cyrff dyfarnu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y broses o ddatblygu cymwysterau
- arfer da o fewn cymwysterau presennol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
    - lleihau rhagfarn, trefniadau mynediad ac ati
    - sut mae rhai cyrff dyfarnu wedi ceisio sicrhau bod eu cymwysterau'n fwy amrywiol
- gwersi o systemau asesu a systemau cymwysterau eraill
- sut i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn modd ystyrlon a dilys wrth ddylunio cymwysterau ac osgoi symboleiddiaeth, gor-bennu, neu newid ffocws y cymhwyster yn ormodol.

Credwn fod yr ymchwil hon yn gyfraniad pwysig a fydd yn dyfnhau ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth ar y cyd ynghylch ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn asesiadau a chymwysterau yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r ymchwil hwn yn hydref 2023.

### Data Cymwysterau

Mae'r Cynllun yn cydnabod cyfyngiadau'r data sydd gennym ar hyn o bryd o ran cymwysterau a chyrhaeddiad academaidd. Er enghraifft, nid yw'r data'n rhoi unrhyw arwydd o'r rhwystrau mae grwpiau ethnig leiafrifol yn eu hwynebu a'u goresgyn, er mwyn dod yn gyflawnwyr uchel o ran eu cymwysterau, na pham nad yw rhannau sylweddol o rai grwpiau yn ennill cymwysterau.

Yn ystod pandemig Covid, fe wnaethom gyflwyno cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol gan gynnwys dadansoddiad o fylchau cyrhaeddiad yng nghanlyniadau cymwysterau cyffredinol[9].

[9] Dadansoddiad Cydraddoldeb Cymwysterau Cyffredinol yn Haf 2022 | Cymwysterau Cymu

Rydym yn bwriadu cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau fesul categori ethnig leiafrifol yn y datganiad hwn lle bo modd. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor nodi bod ffactorau sy'n cyfyngu ar ddadansoddiad o'r fath, gan gynnwys diffyg o ran y data sydd ar gael ar statws ethnig leiafrifol dysgwyr mewn addysg ôl-16 ac ar gyrhaeddiad dysgwyr cyn iddyn nhw sefyll eu cymwysterau. Gall dadansoddiad ystadegol ac adrodd hefyd gael ei rwystro gan feintiau sampl bach o fewn categorïau ethnig.

Yn dibynnu ar rôl newydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn y dyfodol mewn perthynas â data ôl-16, byddem yn ystyried gweithio gyda nhw i wella ansawdd data er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac, unwaith y byddwn wedi'i sefydlu, byddwn yn ceisio ffurfioli hynny mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno.

### Cydnabod Dysgu Blaenorol

Mae diffyg trosglwyddedd cymwysterau ffoaduriaid i'r rhai rydym yn eu cydnabod yng Nghymru yn cael ei amlygu fel her benodol yn y Cynllun. I'r perwyl hwnnw, mae rôl Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) wrth gefnogi'r gwaith o gydnabod dysgu blaenorol a hwyluso'r gwaith o ddeall a chymharu cymwysterau rhyngwladol yn un pwysig.

Fel aelodau o Grŵp Cynghori FfCChC, a pherchennog y Golofn Cymwysterau Rheoleiddiedig o fewn y Fframwaith hwnnw, rydym yn cydnabod bod Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnig llawer o fanteision i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Rydym hefyd yn credu ei bod hi'n bwysig bod cyrff dyfarnu yn amlinellu eu hymagwedd at Gydnabod Dysgu Blaenorol mewn ffordd glir a thryloyw. Dyma pam ein bod ni'n mynnu bod pob corff dyfarnu yn cyhoeddi datganiad polisi[10] yn amlinellu eu hymagwedd at Gydnabod Dysgu Blaenorol. Rhaid i'r datganiad polisi hwn ei gwneud yn glir a yw dysgu blaenorol yn cael ei gydnabod ac, os ydyw, pryd a sut y caiff Cydnabod Dysgu Blaenorol ei ddefnyddio, fel bod dysgwyr yn ymwybodol o'r broses ac yn wybodus amdani. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau[11] ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n nodi materion i'w hystyried wrth lunio a gweithredu polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol, a sut i gefnogi canolfannau yn effeithiol trwy broses Cydnabod Dysgu Blaenorol.

Mae trafodaethau diweddar Grŵp Cynghori FfCChC wedi cynnwys archwilio'r posibilrwydd ar gyfer polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol cwmpasog i Gymru. Byddwn yn parhau i gynghori a chefnogi gwaith y Grŵp yn y maes hwn.

### Ymyriadau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ymhellach

Wrth nodi disgwyliadau ar gyfer y sector cyhoeddus, er enghraifft hyfforddiant Bwrdd, credwn y byddai cymorth ychwanegol gan y Llywodraeth wedi bod yn fuddiol. Er enghraifft, drwy gaffael hyfforddiant priodol ar wrth-hiliaeth yn ganolog a sicrhau ei fod ar gael i gyrff cyhoeddus fel bod dealltwriaeth a dull gweithredu cyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

---

[10] https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/addysgwyr-a-chanolfannau/gwybodaeth-ar-gyfer-addysgwyr/cydnabod-dysgu-blaenorol/

[11] https://cymwysterau.cymru/media/udfdmgu0/canllawiau-i-gyrff-dyfarnu-ar-gydnabod-dysgu-blaenorol.pdf

Mae cysylltiad agos rhwng y disgwyliadau ar gyrff cyhoeddus a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu a gweithgareddau a gofynion adrodd eraill o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad, *Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?*[12] yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru[13] hefyd fod â goblygiadau i'r canllawiau presennol maes o law. Felly, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i rannu yn eang unrhyw ganllawiau neu hyfforddiant penodol yn y meysydd cysylltiedig hyn.

Rydym hefyd yn credu y byddai'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfanrwydd yn elwa o ganlyniadau gwaith Llywodraeth Cymru i '*barhau i wella'r adnodd Asesu Effaith Integredig ac adolygu a diwygio'r elfen o'r Asesiad Effaith Integredig sy'n asesu'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu staff i gynnal asesiadau effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys cymorth i ddeall effaith mewn perthynas â hil fel nodwedd warchodedig a sut i fabwysiadu dull gweithredu wrth-hiliol yn benodol wrth ystyried effaith*' (tudalennau 61-62 y Cynllun).

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth a ddarperir isod yn ddefnyddiol wrth i'r Pwyllgor archwilio ymhellach y materion sy'n ymwneud â gweithredu a chyflwyno'r Cynllun yn gyffredinol a'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â nifer o feysydd polisi, gan gynnwys bylchau cyrhaeddiad mewn addysg. Pe bai'r Pwyllgor angen rhagor o wybodaeth gennym ni, byddem yn fwy na pharod i ddarparu hyn i chi.

Yn gywir,



Philip Blaker
**Prif Weithredwr**

[12] https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf
[13] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made